Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Prif Negeseuon o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar:
Ddydd Iau 17 Chwefror 2023

Derbyniodd a thrafododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf / adroddiadau canlynol:

Cyflwynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru/2021 i'w gymeradwyo. Cafwyd trafodaeth ar yr argymhellion a'r themâu a chymeradwywyd yr adroddiad gan aelodau'r Bwrdd. Bydd yr adroddiad nawr yn cael ei anfon at LlC a'i gyhoeddi maes o law.

Diogelu Plant rhag Cam-drin Rhywiol - darparodd cynrychiolydd LlC drosolwg ar y Pecyn Ymarfer Drafft ar Gamfanteisio.

Derbyniwyd diweddariad ar Ddiogelu Plant rhag Cam-drin Rhywiol, a gyflwynwyd gan Lucy Blackwood o Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd diweddariad mewn perthynas â'r Pecyn Ymarfer Drafft ar Gamfanteisio.

Cyflwynodd yr aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol y themâu a'r materion a nodwyd yn ei Hadroddiad Blynyddol a'r wybodaeth ddiweddaraf ar ei raglen waith.

Cynhaliwyd trafodaeth arall mewn perthynas â Phlant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, a'r Polisi Rhanbarthol ar gyfer Uwchgyfeirio Pryderon a derbyniwyd diweddariad gan is-grwpiau'r Byrddau.